# Cenn@d

GORFFENNAF 14 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 20


# Yr eglwys ddigidol mewn cyfnod ôl-bandemig

Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn agor trafodaeth ar le technoleg ym mywyd a gweinidogaeth ein heglwysi mewn cyfnod ôl-bandemig, gan gyflwyno model o 'Siarter Eglwys Hybrid' y gall eglwysi ei drafod a'i fabwysiadu.




Aeth bron i 18 mis heibio bellach ers i ddrysau capeli ac eglwysi ddechrau cau ym mis Chwefror 2020 wrth i haint y Covid-19 ymledu o fewn ein cymunedau. Erbyn canol Mawrth roedd y clo mawr wedi dod, a olygodd nad oedd hawl cyfarfod i addoli yn gyhoeddus mewn adeilad. O fewn wythnosau roedd eglwysi wedi ymateb yn sydyn iawn, ac yn cynnig darpariaeth ar lein – gan ddefnyddio cyfryngau fel Facebook Live, YouTube a Zoom.

**Oedfaon Cymraeg ar y we**

Cyn y pandemig, prin iawn oedd yr oedfaon Cymraeg oedd i'w gweld ar y we, ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ymddangosodd dros 2,000 o oedfaon Cristnogol Cymraeg eu hiaith ar YouTube yn unig. Aeth Cyngor yr Ysgolion Sul ati i sefydlu sianel deledu Gristnogol, sef Teledu Cristnogol Cymru, er mwyn casglu'r gwasanaethau yma at ei gilydd, ynghyd â phob math o adnoddau eraill fel caneuon ac emynau, cartwnau i blant, gwersi ysgol Sul ar gyfer pob oed a myfyrdodau byr – dros 4,000 o ffilmiau i gyd erbyn hyn.

Mae dros 40 sianel wahanol yn cynnig oedfaon wythnosol, gan enwadau a gofalaethau, a chalondid mawr yw gweld y niferoedd uchel sy'n gwylio'r oedfaon hyn ar y we. Bydd ambell ofalaeth yn rhoi tag/disgrifiad da i'r oedfaon e.e. 'oedfa ar Ioan 3:16', 'oedfa ar hanes Nehemeia', 'oedfa ar thema "Duw yn gymorth mewn unigrwydd" ' ayyb, tra bydd eraill ond yn nodi 'oedfa Ionawr 15fed' neu 'oedfa gan y Parch ...' Gan gofio bod yr oedfaon hyn yn barhaol ar y we, da o beth fyddai i sawl gofalaeth fynd yn ôl ac ailenwi'r oedfaon hynny er mwyn hwyluso'r ffordd y gellir dod o hyd i oedfa ar hanes/thema/adnod arbennig. I weld yr oedfaon hyn i gyd, yna ewch i www.cristnogaeth.cymru/tcc

Pan ddechreuodd eglwysi ddarlledu ar y we 'nôl ym mis Mawrth 2020, mae'n debyg mai gweld hynny fel rhywbeth tymor byr oedd y rhan fwyaf o bobl – rhywbeth i'n cynnal dros gyfnod clo o rai misoedd, cyn i bethau fynd yn ôl i normal erbyn yr haf. Ond, wrth gwrs, nid felly y bu, a bron 18 mis yn ddiweddarach, gyda nifer o gyfyngiadau'n dal mewn grym, a llawer yn teimlo'n bryderus ac yn ofnus i fentro allan, mae'r cyfrwng hwn yn dal mewn lle. Erbyn hyn, bydd llawer o sôn am yr eglwys 'hybrid', sef eglwys rithiol ac eglwys wyneb yn wyneb yn bodoli ochr yn ochr. Mae sawl gofalaeth eisoes wedi ymrwymo i barhau ag oedfaon Zoom, a llawer un arall yn recordio ac yn gosod oedfaon ar YouTube.

**Gwersi'r cyfnodau clo**

Yn ystod y 18 mis diwethaf, rydym wedi gweld cynulleidfaoedd yn cynyddu, ac efallai wedi dysgu sawl gwers bwysig:

- Mae oedfaon ar y we wedi caniatáu i'r rhai hynny oedd yn fregus ac yn gaeth i'w cartrefi fod yn rhan o oedfa unwaith eto, a hynny am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd yn hanes rhai pobl.
- Mae oedfaon ar y we wedi caniatáu i bobl a oedd wedi symud i ffwrdd, efallai i fyw at aelod o deulu neu mewn cartref preswyl, i ymuno mewn oedfa gyda'u cymuned leol – nid peth diarth oedd cael pobl o gryn bellter yn ymuno mewn oedfa leol.
- Mae oedfaon ar y we wedi caniatáu i bobl oedd ar wyliau neu'n ymweld â theulu ym mhen arall y wlad i gyrraedd yr oedfa yr un mor hawdd o ble bynnag y maent y diwrnod hwnnw.
- Mae oedfaon ar y we wedi caniatáu i bobl na fedrai roi bore cyfan i baratoi/gwisgo/teithio i gapel ac oedfa am awr fedru ymuno mewn oedfa hanner awr ar y we, gan gamu o'r buarth fferm i ymuno mewn oedfa dros baned o goffi, cyn ailgydio yn y godro neu beth bynnag arall sy'n galw.
- Mae oedfaon ar y we wedi caniatáu i rai pobl nad oeddent yn hollol gyffyrddus i

*(parhad ar y dudalen nesaf)*


'Awr Duw yn Galw' Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru 2021 — Tudalen 3

O'r byd a'r betws / Disgwyl y gwanwyn yn y gaeaf — Tudalen 5

Haleliwia am Heresi — Tudalen 7

## *Yr eglwys ddigidol mewn cyfnod ôl-bandemig*

*(parhad o dudalen 1)*

ddod i oedfa mewn capel i ymuno yn y gynulleidfa rithiol, gan deimlo'n gartrefol yn ymuno o'u haelwydydd.

**Edrych tua'r dyfodol**
O nodi'r uchod, beth yw ymateb yr eglwysi felly wrth edrych tua'r dyfodol? Bellach, mae 'na oleuni ym mhen draw'r twnnel mewn perthynas â Covid-19, a hynny yn sgil y cynllun brechu godidog y mae Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Iechyd wedi'i ddarparu ar ein cyfer. Bydd llawer yn falch iawn o fynd yn ôl i'r capel unwaith eto: cael cymdeithasu dros baned yn dilyn yr oedfa, cael canu, cael ysgwyd llaw. Ond wrth i ni ailagor ein drysau i groesawu pobl i'n capeli, gobeithio na fyddwn yn cau ein drysau rhithiol. Mae'r grwpiau sy'n cael eu rhestru uchod wedi cael bendith fawr yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, ac felly mae'r her bellach yn ymwneud â diogelu eglwys 'hybrid' wrth i ni edrych tua'r dyfodol.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn, mae Premier Christian Media, mudiad sy'n berchen ar nifer o gylchgronau Cristnogol, gwefan newyddion a gorsaf radio Gristnogol, wedi lansio siarter newydd yn gofyn i eglwysi ymrwymo i barhau i wasanaethu cynulleidfa ddigidol ochr yn ochr â chynulleidfa yn y capel.

Yn ystod y cyfnod clo, cynhaliodd Premier arolwg barn a ddangosodd fod 25% o'r boblogaeth dros Brydain wedi ymuno mewn oedfa ar-lein. Y gobaith bellach yw y bydd eglwysi'n ymrwymo i weithredu pwyntiau 'Siarter yr Eglwys Hybrid' er mwyn parhau'n ddigidol, gan ymestyn allan i'r rheini nad ydynt yn medru mynychu oedfa, neu sydd, efallai, am wahanol resymau yn ei chael hi'n anodd mynd i oedfa wyneb yn wyneb.

Meddai Pete Philips, pennaeth diwinyddiaeth ddigidol Premier Digital:







'Yn ystod y pandemig fe wnaethon ni sylwi bod cymaint o bobl yn ymuno â'r eglwys ar-lein. Ymunodd tua 25% o'r boblogaeth ag addoli ar-lein, ac felly roedden ni'n argyhoeddedig ei bod mor bwysig ein bod ni parhau i wneud hynny – gadewch i ni gael y gorau o ddau fyd. I lawer o bobl, yn enwedig y rheini nad ydynt yn gallu mynychu gwasanaethau a gweithgareddau eglwysig yn y capel oherwydd iechyd, anabledd neu am ryw reswm arall, roedd cael mynediad drwy'r we yn caniatáu iddynt fod yn rhan o gymuned oedd yn addoli unwaith eto.'

Mae Premier yn credu bod dyfodol yr eglwys yn ddibynnol ar fodel hybrid, gan gyfuno'r gorau o'r hyn y mae ein hadeiladau a'n traddodiadau yn ei ganiatáu â'r gorau o gyfleoedd digidol. Fe aethant ati i greu Siarter y gall eglwysi ei mabwysiadu. A beth am i ni fel eglwysi Cymru drafod y pwyntiau isod, a gweld pa elfennau y gallwn ni eu gweithredu. Gobeithio bydd yr enwadau'n ganolog yn rhoi'r un sylw i'r pwyntiau, gan ystyried pa gefnogaeth y gellid ei rhoi'n ganolog – boed ar ffurf hyfforddiant sut i ddefnyddio a manteisio ar y dechnoleg, a pha gymorth ariannol y gellid ei gynnig i eglwysi er mwyn prynu offer technolegol ar gyfer recordio a darlledu. Mae cael camera a meicroffon da yn medru gwneud byd o wahaniaeth i safon ac ansawdd oedfa, a'r gallu i olygu fideo yn gymorth i dacluso'r cyflwyniad gorffenedig. Gobeithio y gwelwn hyfforddiant ymarferol yn y sgiliau hyn yn cael ei gynnig i arweinwyr ein heglwysi.

Cyfrol sydd newydd ddod o'r wasg yn ystod yr wythnosau diwethaf yw *Hybrid Church: blending online and offline community*. Dyma'r teitl diweddaraf yn y gyfres 'Grove Booklets', sy'n cynnig arweiniad clir a chryno ar nifer o bynciau Cristnogol (gweler www.grovebooks.co.uk). Mae'r llyfryn yma'n rhan o gyfres 'Mission and Evangelism', gyda'r nod o gadw peth o'r arloesi ar-lein sydd wedi dod i'r amlwg gan eglwysi yn ystod pandemig Covid-19.

Mae Pete Philips, prif awdur a chyfarwyddwr Canolfan Diwinyddiaeth Ddigidol ym Mhrifysgol Durham, yn crynhoi naws y llyfr drwy ddweud, 'Mae angen i ni fynd allan o'n hadeiladau a dod o hyd i Dduw yn y gwyllt'. Mae un peth yn cael ei wneud yn glir, pan gaeodd adeiladau eglwysig, yn sicr ni chaeodd yr eglwys, ac yn y broses honno dros y 18 mis diwethaf efallai ein bod ni'n dysgu rhywbeth newydd am beth ydy 'bod yn eglwys'. Mae'r gyfrol ar gael o wefan Grove Books, am bris o £ 3.95. Cliciwch yma i ddarllen mwy neu i archebu copi: https://grovebooks.co.uk/products/mev-131




### Siarter yr Eglwys Hybrid

Fel Eglwys Siarter Hybrid byddwn yn ceisio:

1. Sicrhau bod pob un person yn medru cael mynediad i'n gwasanaethau eglwysig – mewn amser real ac ar alw. Byddwn hefyd yn ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i'r rhai hynny sy'n bresennol yn ddigidol gyfrannu, arwain a gwasanaethu o fewn ein hoedfaon.
2. Gofalu bod modd cymryd rhan yn ddigidol yn ein holl gyfarfodydd eglwysig, digwyddiadau a chynadleddau.
3. Sicrhau bod yr Eglwys, boed yn yr adeilad neu ar-lein, yn darparu lle diogel i archwilio a thrafod ffydd mewn modd sy'n ddiogel ac yn gynhwysol.
4. Galluogi'r rhai sy'n ymuno'n ddigidol mewn cyfarfodydd eglwysig i gyfrannu a phleidleisio yn yr un modd â'r rhai sy'n mynychu yn yr adeilad.
5. Annog grwpiau bychain i gyfarfod wyneb yn wyneb ac yn rhithiol, er mwyn cynnwys pawb o deulu'r eglwys.
6. Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd cenhadol digidol, gan gynnig cyfleoedd efengylu a chenhadol i'r rhai sy'n ymchwilio i'r ffydd ar-lein.
7. Ymrwymo i drin y gynulleidfa ddigidol fel cynulleidfa sydd yr un mor ddilys â chynulleidfa mewn adeilad ar gyfer addoli, cymdeithasu, gweddïo, efengylu, astudio'r Gair ac addysgu.
8. Sicrhau bod y rhai hynny nad ydynt yn medru defnyddio'r we yn cael yr un cyfle â phawb arall, ac nad oes elfennau o fywyd yr eglwys sydd ar gael i bobl sy'n defnyddio technoleg yn unig.
9. Ymrwymo fel eglwys i fuddsoddi mewn gweinidogaeth ddigidol yn ôl fel y mae cronfeydd yr eglwys yn caniatáu, er mwyn cyflawni nodau'r Siarter hon.
10. Cefnogi ac arfogi'r rheini o fewn yr eglwys sydd â doniau creadigol yn y byd digidol a'u hysbrydoli i ddod yn arweinwyr yng ngweinidogaeth ddigidol yr eglwys.